Docusign Envelope ID: 29F06380-8594-81A7-81BD-30D01663E8C4

# GORCHYMYN AMRYWIO SIR GAERFYRDDIN (LEDLED Y SIR) ARDAL BARCIO ARBENNIG (TALIADAU AM HAWLENNI A HAWLENNI PARCIO DIGIDOL I BRESWYLWYR) 2026

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel “y Cyngor” o hyn ymlaen), drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i 2(3), 4, 32(1), 35, 45, 46, 49, 51, 53, 122(1) ac 122(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir ati fel y “Ddeddf 1984” o hyn ymlaen), a Rhan IV o Atodlen 9 iddi, Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1 Mae “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Rhydaman) Ardal Barcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004”, “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Caerfyrddin) Ardal Barcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004”, “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llanelli) Ardal Barcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004” a “Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (ac eithrio Caerfyrddin, Llanelli a Rhydaman) Ardal Barcio Arbennig (Mannau Parcio i Breswylwyr) 2004” (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel ‘y Gorchmynion Cydgrynhoi’), fel y'u hamrywiwyd wedyn, drwy hyn yn cael eu hamrywio ymhellach fel a ganlyn:

1.1 Ychwanegir y diffiniadau canlynol at y Gorchmynion Cydgrynhoi:

Ystyr “dyfais llaw” yw cyfrifiadur llaw di-wifr sydd wedi'i raglennu i ryngwynebu â'r system hawlenni electronig at ddibenion gwirio a yw hawlenni dilys wedi'u rhoi neu eu caniatáu mewn perthynas â cherbydau sy'n aros mewn man parcio.

Ystyr “hawlen barcio ddigidol i breswylwyr” yw cofnod electronig o hawlen barcio i breswylwyr sydd wedi'i chofrestru i gerbyd drwy'r system hawlenni electronig.

Ystyr “system hawlenni electronig” yw system gyfrifiadurol a weithredir gan y Cyngor neu ei asiant awdurdodedig, sy'n hwyluso

Docusign Envelope ID: 29F06380-8594-81A7-81BD-30D01663E8C4

ac yn cofnodi manylion yn ymwneud â hawlenni parcio i breswylwyr, ac sy'n gallu rhyngwynebu â dyfeisiau llaw.

1.2 Ychwanegir paragraff (a)(iii) newydd at y diffiniad o 'safle perthnasol' yn y Gorchmynion Cydgrynhoi:

Ystyr "safle perthnasol" mewn perthynas â:

(a) bathodyn person anabl, tystysgrif hepgor neu hawlen barcio yw

…

(iii) yn achos hawlen barcio ddigidol i breswylwyr, ni fydd unrhyw ofyniad i'r hawlen gael ei harddangos ar y cerbyd y mae'n ymwneud ag ef yn berthnasol.

1.3 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 5(i) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi:

(i) Yn ddarostyngedig i'r hyn a nodir o hyn ymlaen, gall unrhyw breswylydd sy'n byw mewn parth parcio i breswylwyr a nodir ar y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn ac:

(a) sy'n berchen ar gerbyd o'r dosbarth canlynol, hynny yw, cerbyd i deithwyr, cerbyd nwyddau, neu gerbyd pobl anabl, neu

(b) gyda chaniatâd y perchennog, yn defnyddio cerbyd o'r dosbarth dywededig yn rheolaidd yn ystod ei gyflogaeth,

wneud cais i'r Cyngor am hyd at ddwy hawlen ar gyfer ei breswylfa neu ei phreswylfa i adael, mewn man parcio a nodir ym mharagraff (iv) o'r Erthygl hon, y cyfryw gerbyd neu gerbydau, a bydd unrhyw gais o'r fath yn cael ei wneud:

i. naill ai ar ffurflen a roddir ac a geir gan y Cyngor, a bydd yn cynnwys y manylion a'r wybodaeth y mae'r ffurflen yn gofyn amdanynt; neu

Docusign Envelope ID: 29F06380-8594-81A7-81BD-30D01663E8C4

ii. yn achos hawlen barcio ddigidol i breswylwyr, drwy gais a gyflwynir drwy system hawlenni electronig y Cyngor,

a'r cyfryw ffi a bennir yn Erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn.

1.4 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 8(i) yn y Gorchmynion Cydgrynhoi:

(i) Y tâl am roi hawlen barcio bapur i breswylwyr neu hawlen barcio ddigidol i breswylwyr gan y Cyngor, a fydd yn ddilys am ddeuddeg mis, fydd £40.00.

1.5 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 8(ii) o'r Gorchmynion Cydgrynhoi:

(ii) Y tâl am roi hawlen barcio i ymwelwyr gan y Cyngor i breswylwyr, a fydd yn ddilys am ddeuddeg mis, fydd £45.00.

1.6 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 8(iii) o'r Gorchmynion Cydgrynhoi:

(iii) Y tâl am roi hawlen busnes gan y Cyngor, a fydd yn ddilys am ddeuddeg mis, fydd £60.00.

1.7 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 8(iv) o'r Gorchmynion Cydgrynhoi:

(iv) Am bob hawlen barcio newydd y bydd ei hangen yn lle hawlen a gollwyd, a dreuliwyd neu a ddifrodwyd, codir tâl o £40.00 ar breswylwyr a £60.00 ar fusnesau. Bydd y cyfryw hawlenni yn ddilys am ddeuddeng mis o'r dyddiad cyflwyno. Codir £45.00 am ddarparu hawlen barcio newydd i ymwelwyr cyn pen deuddeng mis o'r dyddiad cyflwyno.

Docusign Envelope ID: 29F06380-8594-81A7-81BD-30D01663E8C4

1.8 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 11 o'r Gorchmynion Cydgrynhoi:

11 FFURF HAWLENNI

(a) Gellir rhoi hawlen i breswylwyr naill ai ar ffurf ddigidol neu bapur, yn ysgrifenedig a bydd yn cynnwys y manylion canlynol:

(i) rhif cofrestru'r cerbyd y rhoddir yr hawlen ar ei gyfer;

(ii) y cyfnod y bydd yr hawlen, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 9(iv) o'r Gorchymyn hwn, yn parhau'n ddilys;

(ii) arwydd bod y Cyngor wedi rhoi'r hawlen; ac

(iv) y parth parcio i breswylwyr y mae'r hawlen yn ddilys ynddo.

(b) Bydd hawlen busnes neu hawlen i ymwelwyr ar ffurf bapur, yn ysgrifenedig a bydd yn cynnwys y manylion canlynol:

(i) rhif cofrestru'r cerbyd y rhoddir yr hawlen ar ei gyfer;

(ii) y cyfnod y bydd yr hawlen, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl 9(iv) o'r Gorchymyn hwn, yn parhau'n ddilys;

(ii) arwydd bod y Cyngor wedi rhoi'r hawlen; ac

(iv) y parth parcio i breswylwyr y mae'r hawlen yn ddilys ynddo.

Docusign Envelope ID: 29F06380-8594-81A7-81BD-30D01663E8C4

1.9 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 12 o'r Gorchmynion Cydgrynhoi:

12 ARDDANGOS HAWLENNI

Bydd unrhyw gerbyd a adawir mewn man parcio yn unol â darpariaethau Erthygl 19(ii) bob amser:

(a) naill ai'n meddu ar hawlen barcio ddigidol i breswylwyr mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw nad oes angen ei harddangos; neu

(b) o ran hawlenni papur, yn arddangos yn y safle priodol hawlen ddilys a roddir mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw.

1.10 Bydd y canlynol yn cael ei roi yn lle Erthygl 19(ii) o'r Gorchmynion Cydgrynhoi:

(ii) Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 18 yn ei gwneud yn dramgwydd i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn unrhyw un o'r mannau parcio a nodir ar y cynlluniau sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn, ar yr amod:

(a) bod y cerbyd yn arddangos, yn y modd a nodir yn Erthygl 12, hawlen bapur ddilys a roddir gan y Cyngor mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw; neu

(b) bod modd canfod hawlen barcio ddigidol ddilys i breswylwyr, a roddir gan y Cyngor mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw, ar y system hawlenni electronig.

2 Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y Cyntaf o Fedi, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech a gellir cyfeirio ato fel ‘Gorchymyn Amrywio Sir Gaerfyrddin (Ledled y Sir) Ardal Barcio Arbennig (Taliadau am Hawlenni a Hawlenni Parcio Digidol i Breswylwyr) 2026’.

Docusign Envelope ID: 29F06380-8594-81A7-81BD-30D01663E8C4

**GWNAED** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar yr Ail ar Bymtheg o Awst, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech.

20232

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon

ym mhresenoldeb:

Signed by:
Steven P Murphy
6947BF055CF64B2...

..........................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**